COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A GYNHALIWYD DDYDD IAU 24 IONAWR 2007 YN NHŶ CARADOG, 1-6 PLAS SANT ANDREAS, CAERDYDD CF10 3BE

Comisiwn	Ysgrifenyddiaeth
Mr D H Roberts (Cadeirydd)	Mr E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mrs S Smith	Mr S Halsall
Y Parch. H Davies	Mr D Carr
	Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)
	Mr M Usher
	Mrs A Butler
	Gwasanaethau Archwilio Mewnol (GAM) Cynulliad Cenedlaethol Cymru
	Mr R Thomas
	Mrs G Luce
	Ms G Jones

Cyflwynodd Mr Usher Alison Butler, a fyddai'n cymryd lle Mark Jones fel Rheolwr Archwilio ar gyfer archwiliad 2006-07 y Comisiwn.

Croesawodd y Cadeirydd Mr Usher, Mrs Butler, Mr Thomas, Mrs Luce a Ms Jones i'r cyfarfod.

1. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2006.

1.1 Cytunwyd ar y rhain a'u mabwysiadu.

2. Materion yn codi.

2.1 Adroddodd Mr Thomas fod GAM CCC wedi cydweithio â SAC ynghylch lefel ymdriniaeth yr archwiliad mewnol y mae ei angen ar y Comisiwn, a bod Cylch Gorchwyl y Cynllun Archwilio Mewnol yn cynnwys lefel addas o waith archwilio na fyddai'n dyblygu unrhyw waith a wnaed gan SAC. Cadarnhaodd Mr Usher y bu SAC yn cydweithio â GAM ynghylch lefel ymdriniaeth yr archwiliad ac y byddai'n parhau i rannu gwybodaeth a chydweithio â nhw trwy gydol y cylch archwilio.

3. Cylch Gorchwyl Cynllun Archwilio Mewnol 2006-07.

3.1 Cyflwynodd Mr Thomas Gylch Gorchwyl Cynllun Archwilio Mewnol 2006-07. Cyfeiriodd Aelodau at gwmpas yr archwiliad, a fyddai'n cynnwys rheolyddion lefel uchel i gefnogi'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn y cyfrifon blynyddol; trefniadau caffael, yn arbennig o ran y contractau a oedd i'w hadnewyddu ar y pryd; ac olrhain

argymhellion archwiliad mewnol y flwyddyn flaenorol. Byddai rheolyddion lefel uchel yn cynnwys chwe chategori:

- Cynllunio busnes, gan gynnwys cyllidebau;
- Rheoli Risg;
- Trafodion ariannol;
- Cytundebau partneriaeth;
- Cyfrifoldebau corfforaethol a Gofynion statudol; a
- Materion Staffio.

3.2 Cadarnhaodd Mr Usher ei fod yn fodlon â Chylch Gorchwyl Cynllun Archwilio Mewnol 2006-07, ac roedd o'r farn y byddai'r gwaith i gefnogi'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn cynorthwyo SAC wrth archwilio'r cyfrifon blynyddol.

4. Cwynion

4.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd y cafwyd cwyn ynglŷn â geiriad y wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn nosbarthiad y Comisiwn ar gyfer cyfnod cychwynnol arolygiad cymunedol Rhondda Cynon Taf. Roedd y Comisiwn wedi dilyn y weithdrefn gwyno a hefyd wedi ceisio cyngor cyfreithiol ynglŷn â'r gŵyn. O ystyried y cyngor cyfreithiol a roddwyd iddo, ystyriwyd bod sail ddigonol i ddod at y casgliad bod yr Ysgrifenyddiaeth wedi cynnal y broses ddosbarthu gychwynnol yn gywir. Fodd bynnag, roedd camgymeriad anghysylltiol yn y dogfennau dosbarthu wedi dod i'r amlwg hefyd, ac ystyriwyd y byddai'n ddoeth ailddrafftio ac ailgyhoeddi'r dogfennau a ddosbarthwyd yn wreiddiol.

4.2 Dywedodd Mr Usher ei fod yn bwysig i'r Comisiwn weithredu gweithdrefn gadarn ar gyfer ymdrin â chwynion. Awgrymodd y byddai'r Comisiwn efallai yn dymuno adolygu ei weithdrefn gwyno er mwyn sicrhau ei heffeithiolrwydd a chynigiodd gymorth SAC gyda'r arolygiad hwn. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cydweithio â SAC, a fyddai'n cynorthwyo i arolygu'r weithdrefn gwyno. **Cytunwyd** rhoi gweithdrefn gwyno adolygedig ar agenda cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio.

5. Unrhyw fater arall

5.1 Nid oedd unrhyw fater arall.